barcud



# Pecyn Recriwtio Aelodau Bwrdd

Gofal a Thrwsio ym Mhowys
Care & Repair in Powys

# Tudalen Cynnwys


**Llythyr Croeso** . . . . . . . . . . . . . . . . **3**

**Disgrifiad Swydd** . . . . . . . . . . . . . . **4**

**Egwyddorion Nolan** . . . . . . . . . . . . . **10**

**Ynglŷn â Grŵp Barcud** . . . . . . . . . . . . **11**

Cymdeithas Dai Barcud . . . . . . . . . . . 12

Gofal a Thrwsio ym Mhowys . . . . . . . . . 13

Y Gymdeithas Gofal . . . . . . . . . . . . 14

EOM (EOM Electrical Contractors Ltd) . . . . . . 15

Aelodau Bwrdd Barcud . . . . . . . . . . . 16

Bwrdd Gofal a Thrwsio ym Mhowys . . . . . . . 17

Bwrdd Y Gymdeithas Gofal . . . . . . . . . . 18

Bwrdd EOM . . . . . . . . . . . . . . . 20

**Sut I Ymgeisio** . . . . . . . . . . . . . . **21**

**Amserlen Recriwtio** . . . . . . . . . . . . . **21**




# Llythyr Croeso

Diolch am ddangos diddordeb yn y cyfle cyffrous hwn sydd ar gael i ymuno â Grŵp Barcud. Mae'n adeg wych i ymuno â Grŵp Barcud a helpu i ffurfio'r gwasanaethau a dyfodol y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu ar draws y canolbarth.

Mae gan Barcud dros 4,000 o gartrefi a throsiant o dros £25 miliwn. Felly, dyma'r gymdeithas dai fwyaf sydd â'i gwreiddiau yng nghymunedau'r canolbarth a'r gorllewin, a dyma'r partner naturiol i'r sawl sydd am ddarparu tai, cyflogaeth a chyfleoedd datblygu ehangach yn y rhanbarth.

Mae Barcud yn fwy na chymdeithas dai; yn ogystal ag adeiladu cartrefi ar gyfer anghenion y dyfodol a darparu gwasanaethau landlord, mae hefyd yn cynnig atebion cynhwysfawr o ran tai, gwasanaethau cynnal a chadw a chymorth, a hynny drwy ei dri is-gwmni.

Mae cynnwys tenantiaid a phreswylwyr yn wirioneddol yn ei waith yn elfen gwbl sylfaenol o ffordd Barcud o weithio, ac mae'r Bwrdd yn cynnwys y tenantiaid wrth ddatblygu polisïau a strategaethau. Dyma un o'r ffyrdd niferus y mae Barcud wedi'i wreiddio mewn cymunedau ar draws y canolbarth a'r gorllewin.

Rydym yn chwilio am unigolyn sy'n rhannu ein huchelgais a'n hymrwymiad i ddarparu'r cartrefi a'r gwasanaethau gorau posibl i bobl y canolbarth a'r gorllewin. Mae'r cyfleoedd sydd ar gael fel a ganlyn:

- Cadeirydd Annibynnol i ymuno â Bwrdd Gofal a Thrwsio - rydym yn chwilio am unigolyn sydd â phrofiad o fod yn gadeirydd ar lefel pwyllgor neu Fwrdd. Mae gwybodaeth arbenigol am gyllid ac archwilio, adnoddau dynol a chyfraith cyflogaeth yn hollbwysig, a byddem hefyd yn croesawu gwybodaeth am ddarparu gwasanaethau proffesiynol ym maes atgyweirio a chynnal a chadw neu am seiberddiogelwch.
- Cadeirydd Annibynnol i ymuno â Bwrdd y Gymdeithas Gofal - rydym yn chwilio am unigolyn sydd â phrofiad o fod yn gadeirydd ar lefel Bwrdd. Byddem hefyd yn croesawu profiad o ymwneud â thai a chymorth ac o ymwneud â llywodraethiant.

Mae Grŵp Barcud wedi ymrwymo i ddatblygu unigolion er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial. Mae'r ymrwymiad hwn i ddysgu a datblygu'n cynnwys Aelodau Bwrdd, a bydd rhaglen sefydlu gynhwysfawr yn cael ei darparu i'r unigolion llwyddiannus. Bydd Aelodau Bwrdd newydd yn cael cyfle i gael eu mentora gan Aelod Bwrdd presennol a bod yn rhan o'r rhaglen o arfarniadau Aelodau Bwrdd a gyflawnir gan y Cadeirydd.

Mae rhagor o wybodaeth am Grŵp Barcud ar gael ar y wefan: barcud.cymru

Rwy'n gobeithio y bydd y pecyn recriwtio hwn yn eich ysbrydoli i ymgeisio.

Yr eiddoch yn gywir,



**Alison Thorne**
Cadeirydd Bwrdd Barcud

barcud

Gofal a Thrwsio ym Mhowys
Care & Repair in Powys

# Proffil Rôl

# Cadeirydd Gofal a Thrwsio ym Mhowys

# PROFFIL RÔL CADEIRYDD BWRDD GOFAL A THRWSIO YM MHOWYS

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau llwyddiant Gofal a Thrwsio ym Mhowys: am bennu ei genhadaeth a'i werthoedd; diffinio amcanion strategol a goruchwylio'r gwaith o'u cyflawni; sicrhau bod asedau'r sefydliad a Barcud yn cael eu diogelu, a bod y sefydliad yn parhau'n hyfyw yn ariannol – a'r cyfan yn unol â'r cyfansoddiad, y gyfraith a gofynion rheoleiddiol. Y Cyfarwyddwr Grŵp perthnasol yn Barcud a Thîm Arwain y sefydliad sy'n gyfrifol am reoli'r sefydliad o ddydd i ddydd.

**Prif ddiben y rôl**

- Sicrhau bod busnes y Bwrdd yn cael ei gyflawni'n effeithlon ac yn briodol
- Gweithredu o fewn y pwerau a nodir yng nghyfansoddiad y gymdeithas dai
- Hybu llwyddiant y gymdeithas dai er budd ei thenantiaid, ei lesddeiliaid, ei phreswylwyr, ei chwsmeriaid eraill a'i rhanddeiliaid
- Dod i farn yn annibynnol
- Gweithredu gyda lefel resymol o ofal, sgìl a diwydrwydd.

## PRIF GYFRIFOLDEBAU

### Cyflawni rôl y Bwrdd

Gydag aelodau eraill y Bwrdd, cyfrifoldebau'r Aelod Bwrdd yw:

- Sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, statudol, cyfansoddiadol a rheoleiddiol
- Pennu gwerthoedd, gweledigaeth, cenhadaeth ac amcanion strategol y sefydliad, y mae'n rhaid iddynt gael eu dylunio i sicrhau ei lwyddiant hirdymor, a gwneud yn siŵr y cydymffurfir â nhw
- Sicrhau bod amcanion strategol yn cyd-fynd â rhai'r Grŵp, a bod cyfraniad y sefydliad i amcanion strategol y Grŵp wedi'i amlinellu yn glir a bod modd ei fesur er mwyn sicrhau llwyddiant hirdymor y Grŵp
- Pennu natur a graddau'r prif risgiau y mae'r sefydliad yn fodlon eu cymryd er mwyn cyflawni ei amcanion
- Sefydlu diwylliant sy'n canolbwyntio ar anghenion y busnes, cwsmeriaid eraill a rhanddeiliaid allweddol yn awr ac yn y dyfodol, ac sy'n ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y sefydliad
- Sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus
- Goruchwylio aelodau'r Tîm Arwain, eu cynorthwyo, eu cyfarwyddo a'u herio mewn modd adeiladol
- Sicrhau integriti gwybodaeth ariannol, gan bennu a chymeradwyo cyllideb pob blwyddyn, y cynllun busnes a'r cyfrifon blynyddol cyn eu bod yn cael eu cyhoeddi
- Sefydlu a goruchwylio fframwaith rheolaeth a fframwaith rheoli risg er mwyn diogelu asedau'r sefydliad, sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â gofynion, a diogelu ei enw da
- Sefydlu fframwaith o drefniadau dirprwyo i bwyllgorau a staff, goruchwylio'r fframwaith a'i adolygu'n rheolaidd.

### Gweithio'n rhan o dîm y Bwrdd

Mae cyfrifoldeb ar yr Aelod Bwrdd i:

- Rannu cyfrifoldeb am benderfyniadau'r Bwrdd a'u cadarnhau

- Cymryd rhan yn llawn yng ngwaith y Bwrdd, gan wneud pob ymdrech i fynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd a digwyddiadau eraill megis cyfarfodydd cynllunio a chyfarfodydd strategaeth y Bwrdd
- Fel y cytunwyd, cymryd rhan mewn gweithgorau neu baneli i hybu llywodraethiant cyffredinol y gymdeithas dai
- Gweithio'n adeiladol gyda Bwrdd, Prif Weithredwr a Thîm Gweithredol Barcud, a thîm ehangach staff y sefydliad a staff y Grŵp, a rhanddeiliaid eraill
- Cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad y mae'r Bwrdd wedi'i fabwysiadu
- Cydymffurfio ag unrhyw beth sy'n ofynnol gan Aelod Bwrdd mewn deddfwriaeth, rheoliadau neu gan y sefydliad, e.e. rhwymedigaethau mewn perthynas â Thŷ'r Cwmnïau
- Ymwneud yn weithredol â threfniadau'r Grŵp ar gyfer adolygu perfformiad Bwrdd
- Cwblhau rhaglen o hyfforddiant sefydlu cyn pen chwe mis ar ôl y penodiad
- Cymryd rhan mewn cyfleoedd i ddysgu a datblygu ar y cyd ac yn unigol.

**Bod yn Gadeirydd tîm y Bwrdd**

Yn ogystal â chyflawni cyfrifoldebau Aelod Bwrdd, mae'r Cadeirydd:

- Yn arwain y Bwrdd wrth iddo gynllunio ei raglen waith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, gan sicrhau ei fod yn cyflawni egwyddorion y Bwrdd
- Yn llunio, gyda Thîm Llywodraethiant Barcud, yr agenda ar gyfer cyfarfodydd, gan sicrhau ei bod yn gyson â chylch gorchwyl y Bwrdd
- Yn sicrhau bod adroddiadau a chyflwyniadau i'r Bwrdd o safon sy'n galluogi'r Bwrdd i oruchwylio'n effeithiol a gwneud penderfyniadau o safon
- Yn sicrhau bod y Bwrdd yn cael unrhyw gyngor proffesiynol angenrheidiol
- Yn sicrhau bod cyfarfodydd wedi'u cynnull yn briodol a bod ganddynt gworwm
- Yn sicrhau bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir ac yn gyflawn, ac os ydynt, yn eu llofnodi
- Yn tywys y cyfarfod drwy'r eitemau sydd ar yr agenda, gan annog cyfranogiad gan bawb, gwneud y defnydd gorau o sgiliau'r Bwrdd, sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn fodlon â'r atebion i'w cwestiynau, dod â safbwyntiau amrywiol ynghyd a sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau'n glir
- Yn aelod o Banel Cadeiryddion y Grŵp ac, o ganlyniad, yn adrodd wrth Gadeirydd y Grŵp ynghylch gwaith Bwrdd yr is-gwmni, ac yn casglu gwybodaeth a chyfarwyddiadau er mwyn mynd â nhw'n ôl i Fwrdd yr is-gwmni
- Yn sefydlu perthynas waith adeiladol â Swyddog Llywodraethiant, Pennaeth Llywodraethiant a Chyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol Barcud, a fydd yn darparu cymorth, arweiniad a her
- Yn sefydlu perthynas waith adeiladol â chynghorwyr a rhanddeiliaid mewn perthynas â busnes y Bwrdd
- Yn arwain y Bwrdd wrth iddo adolygu ei effeithiolrwydd bob blwyddyn
- Yn chwarae rhan, yn unol â'r polisi, ym mhroses ddisgyblu Cyfarwyddwr Grŵp y sefydliad
- Yn nodi unrhyw broblemau'n ymwneud â pherfformiad neu ymddygiad Aelod Bwrdd yn ystod y flwyddyn, gan weithio gyda Chadeirydd y Grŵp a'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol fel y bo angen i gytuno ar unrhyw gamau unioni, hyfforddiant neu ofynion o ran cymorth.

# MANYLEB PERSON CADEIRYDD BWRDD IS-GWMNI

## Sgiliau technegol

Mae ar y Bwrdd yn ei gyfanrwydd angen ystod o sgiliau 'technegol'. Dyma feysydd lle mae angen i'r Bwrdd gael un neu, fel rheol, dau aelod arbenigol – aelodau sy'n debygol o fod â phrofiad proffesiynol sylweddol a, lle bo'n berthnasol, cymhwyster proffesiynol. Caiff y rhain eu diffinio mewn Matrics Sgiliau Bwrdd a gaiff ei adolygu'n rheolaidd.

Wrth recriwtio aelodau Bwrdd newydd, bydd y Bwrdd yn nodi'r sgiliau penodol y mae arno eu hangen ar y pryd.

## Cymwyseddau craidd

Yn ogystal â meysydd arbenigedd penodol lle gallai fod angen i'r Bwrdd gael un neu ddau aelod arbenigol, ceir meysydd lle mae angen i bob Aelod Bwrdd gael lefel benodol o wybodaeth a dealltwriaeth i allu cyfrannu fel Aelod Bwrdd effeithiol. Mae meysydd o'r fath yn cynnwys: llywodraethiant, iechyd a diogelwch, rheoli risg a rheolaeth ariannol.

Ni fyddai disgwyl o reidrwydd i aelodau newydd fod â'r lefel ofynnol o wybodaeth a dealltwriaeth adeg ymuno â'r Bwrdd, ond byddai disgwyl iddynt fod wedi meithrin y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ofynnol erbyn diwedd eu cyfnod sefydlu o chwe mis.

## Sgiliau a gallu

O ran sgiliau ehangach, mae angen bod Aelodau Bwrdd:

O ran sgiliau busnes

- Yn gallu meddwl yn strategol, gan ystyried yr effeithiau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a thechnolegol ar y busnes
- Yn gallu amgyffred data cymhleth a gwneud synnwyr ohono
- Yn gallu gwerthuso ffeithiau a thystiolaeth yn rhesymegol
- Yn gallu rhagweld a deall y risgiau a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â gwahanol opsiynau
- Yn gallu adnabod cyfleoedd a chyfrannu'n greadigol at ddatrys problemau
- Yn gallu goruchwylio'r gwaith o gyflawni amcanion sefydliadol heb ymwneud yn amhriodol â manylion gweithredol

O ran sgiliau rhyngbersonol

- Yn gallu holi a herio'n adeiladol heb greu gwrthdaro
- Yn gallu gweithio mewn modd cydweithredol
- Yn gallu gwrando ar safbwyntiau pobl eraill a'u hystyried
- Yn gallu gwybod pryd i gyfrannu rhywbeth y mae wedi meddwl amdano a phryd i gadw'n dawel
- Yn gallu siarad yn glir ac yn bwrpasol
- Yn gallu meithrin a chynnal cydberthnasau da ar sail parch gan bawb at ei gilydd

O ran sgiliau arbenigol

- Yn meddu ar wybodaeth am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Yn meddu ar rywfaint o brofiad ym maes y gyfraith, ac yn benodol ym maes trafod telerau contractau, tir a datblygu
- Yn deall arloesi digidol a chyflawni'n ddigidol ac yn meddu ar sgiliau ym maes technoleg
- Yn meddu ar wybodaeth am ddulliau o ymgysylltu â chymunedau
- Yn meddu ar sgiliau cyfathrebu / marchnata / brandio
- Yn deall sut mae dylanwadu ar eraill mewn sefyllfaoedd o newid.

**Rhinweddau personol**

At hynny, mae angen rhai rhinweddau personol ar Aelodau Bwrdd i allu gweithio fel aelod effeithiol o'r Bwrdd. Mae'r rhinweddau hynny'n cynnwys y canlynol:

- Yn cyd-fynd â chenhadaeth, gwerthoedd ac amcanion strategol Grŵp Barcud
- Yn ymrwymo i hyrwyddo atebolrwydd, gonestrwydd, tryloywder, amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant, ac yn glynu wrth egwyddorion Nolan (gweler y ddogfen Egwyddorion Nolan)
- Yn dod i farn yn annibynnol – yn mynegi barn bersonol, sy'n cynnwys anghytuno pan fo angen
- Yn barod i fynd i'r afael â materion anodd neu sensitif
- Yn barod i dynnu sylw at broblemau a chydnabod camgymeriadau
- Yn barod i ofyn am help i ddeall pethau pan fo angen, er mwyn gallu cyfrannu i drafodaethau a phenderfyniadau ym mhob maes
- Yn parhau'n bwyllog ac yn hunanfeddiannol bob amser
- Yn hyblyg – yn agored i ffyrdd newydd o weithio ac yn gallu addasu i newid
- Yn ddibynadwy – yn cyflawni ymrwymiadau a gytunwyd
- Yn hunanymwybodol – yn ymwybodol o gryfderau a gwendidau personol a chymhellion personol
- Yn croesawu her i'w safbwyntiau personol
- Yn croesawu adborth adeiladol ynghylch perfformiad personol ac yn defnyddio cyfleoedd i ddysgu a datblygu
- Yn gallu neilltuo'r amser sy'n ofynnol ar gyfer y rôl, gan gynnwys yr amser sy'n ofynnol i baratoi'n drylwyr ar gyfer cyfarfodydd ac ymgysylltu â'r sefydliad y tu hwnt i gyfarfod y Bwrdd.

**Sgiliau, gallu a rhinweddau personol ar gyfer Cadeirydd tîm y Bwrdd**

Yn ogystal â'r sgiliau a'r cymwyseddau sy'n ofynnol gan Aelod Bwrdd, mae cadeirio'r Bwrdd yn gofyn am y gallu i wneud y canlynol:

- Pennu a chynnal naws briodol a phroffesiynol ar gyfer y cyfarfod
- Ymdrin yn effeithiol ag unrhyw wrthdaro o ran buddiannau
- Ymdrin yn effeithiol ag unrhyw ymddygiad amhriodol
- Sicrhau bod trafodaeth yn cael ei chynnal mewn modd trefnus, ei bod yn parhau i ganolbwyntio ar yr eitem a gaiff ei hystyried, ei bod yn cael ei dirwyn i ben ar yr adeg briodol a bod eglurder ynghylch canlyniad y drafodaeth
- Annog holl aelodau'r Bwrdd i gyfrannu, gan sicrhau nad oes unrhyw aelod unigol yn rheoli'r drafodaeth
- Rheoli amser cyfarfod yn effeithiol
- Neilltuo amser i gyflawni cyfrifoldebau'r rôl.

**Disgwyliadau o ran ymddygiad**

- Osgoi gwrthdaro o ran buddiannau
- Peidio â derbyn buddion gan drydydd partïon
- Datgan unrhyw fuddiannau mewn trafodion neu drefniadau â'r gymdeithas dai.

## YMRWYMIAD O RAN AMSER

4 cyfarfod Bwrdd y flwyddyn (yn cylchdroi fel rheol rhwng cyfarfodydd wyneb yn wyneb a chyfarfodydd ar-lein ar Zoom)

4 cyfarfod pennu agenda (ar Zoom)

1 diwrnod cynllunio busnes (wyneb yn wyneb)

1 Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (wyneb yn wyneb)

4 cyfarfod o Banel Cadeiryddion y Grŵp (ar Zoom, ond mae'n bosibl y ceisir cael rhai cyfarfodydd wyneb yn wyneb, os bydd dyddiaduron pawb yn caniatáu i hynny ddigwydd)

Mae angen ymrwymiad o 15 awr o leiaf bob chwarter.

**Teithio:** Mae swyddfa Gofal a Thrwsio (Powys) yn y Drenewydd, a byddai unrhyw gyfarfodydd wyneb yn wyneb fel rheol yn cael eu cynnal yn swyddfeydd Barcud yn Tŷ Canol, Y Drenewydd.

Gellir hawlio treuliau teithio a chynhaliaeth yn unol â Pholisi Treuliau Aelodau Bwrdd Grŵp Barcud. Bydd copi o'r polisi yn cael ei ddarparu'n rhan o'r broses sefydlu.

| | |
|---|---|
| **Tymor**: | Uchafswm o 3 x tymor o 3 blynedd |
| **Cydnabyddiaeth ariannol:** | Dim cydnabyddiaeth ariannol, ond caiff costau teithio rhesymol a threuliau eu had-dalu |

# Egwyddorion Nolan

## Anhunanoldeb:

**Dylai'r sawl sydd mewn swydd gyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd yn unig.**

## Integriti:

**Rhaid i'r sawl sydd mewn swydd gyhoeddus osgoi eu gosod eu hunain dan unrhyw rwymedigaeth i bobl neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu'n amhriodol arnynt yn eu gwaith. Ni ddylent weithredu na gwneud penderfyniadau er mwyn ennill manteision ariannol neu unrhyw fanteision eraill o bwys iddyn nhw, eu teulu neu'u ffrindiau. Rhaid iddynt ddatgan a datrys unrhyw fuddiannau a chydberthnasau.**

## Gwrthrychedd:

**Rhaid i'r sawl sydd mewn swydd gyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau'n ddiduedd ac yn deg ar sail haeddiant, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu na rhagfarnu.**

## Atebolrwydd:

**Mae'r sawl sydd mewn swydd gyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd, a rhaid iddynt fynd drwy'r prosesau craffu sy'n angenrheidiol i sicrhau hynny.**

## Didwylledd:

**Dylai'r sawl sydd mewn swydd gyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw. Ni ddylid cadw gwybodaeth yn ôl oddi wrth y cyhoedd oni bai bod yna resymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.**

## Gonestrwydd:

**Dylai'r sawl sydd mewn swydd gyhoeddus fod yn eirwir.**

## Arweinyddiaeth:

**Rhaid i'r sawl sydd mewn swydd gyhoeddus adlewyrchu'r egwyddorion hyn yn eu hymddygiad nhw. Dylent hyrwyddo'r egwyddorion yn weithredol a'u cefnogi yn gadarn, a dylent fod yn barod i herio ymddygiad gwael ble bynnag y bydd yn digwydd.**

barcud

# Ynglŷn â Grŵp Barcud

Caiff llywodraethiant Grŵp Barcud ei reoli drwy Fwrdd Barcud, ei Bwyllgorau a Byrddau'r is-gwmnïau, ynghyd â Thîm Arwain Barcud. Mae strwythur Barcud o ran Pwyllgorau i'w weld isod:

## Bwrdd a Phwyllgorau Barcud

**Bwrdd Barcud**

- **Pwyllgor Archwilio a Risg**
- **Pwyllgor Prosiectau a Pherfformiad**
- **Pwyllgor Llywodraethiant a Chydnabyddiaeth Ariannol**

Mae gan Barcud dri is-gwmni: Gofal a Thrwsio ym Mhowys, EOM (EOM Electrical Contractors Ltd) a'r Gymdeithas Gofal. Rhyngddynt, mae'r is-gwmnïau'n cyflogi 97 o staff ac yn cyfrannu £6.5 miliwn i drosiant y Grŵp.

## Strwythur Cyfreithiol Barcud

**Barcud Cyf**
Cymdeithas Budd Cymunedol
(IP030701R)

- **Gofal a Thrwsio ym Mhowys**
  Cymdeithas Budd Cymunedol
  (IP29535R)
- **EOM Limited**
  Deddf Cwmnïau
  (02899572)
- **Y Gymdeithas Gofal**
  Cwmni Elusennol
  (07628816)



# Cymdeithas Dai Barcud

Cafodd cymdeithas dai Barcud ei chofrestru ar 2 Tachwedd 2020 fel Cymdeithas Budd Cymunedol. Mae Barcud yn berchen ar dros 4,000 o gartrefi ac yn eu rheoli, mae ganddo drosiant blynyddol o dros £28 miliwn, ac mae'n cyflogi dros 200 o staff.

Mae Barcud yn gymdeithas dai ddielw. Caiff pob ceiniog ei hailfuddsoddi mewn darparu cartrefi o'r radd flaenaf yn ein cymunedau ar draws Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

Drwy gyfuno arbenigedd, profiad a gweledigaeth, mae Barcud yn asgwrn cefn ymdrechion i ddarparu tai fforddiadwy i'w rhentu, eu rhentu i berchnogi, a'u prynu yng nghanolbarth Cymru.

## Gwerthoedd

Caiff y ffordd y mae Barcud yn darparu ei wasanaethau ei hadlewyrchu gan ei werthoedd. Dyma nhw:

- **Ymrwymiad** - Rydym wedi ymrwymo i ddarparu sylfeini cadarn ar gyfer bywyd.
- **Balchder** - Rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith ac yn falch o'i wneud yn dda.
- **Parch** - Rydym yn parchu'r bobl yr ydym yn gweithio gyda nhw ac iddyn nhw ac yn gwerthfawrogi eu cyfraniad.
- **Gofal** - Mae ein pobl, ein cymunedau, ein diwylliant, ein gwlad a'r amgylchedd yn bwysig i ni.
- **Gyda'n Gilydd** - Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr, tenantiaid a phartneriaid i greu cymunedau cryfach.

## Pwrpas

Gellir crynhoi pwrpas neu nod Barcud yn y pennawd canlynol: **Sylfeini Cadarn; Cartrefi Gwell; Cymunedau Cryf**. Mae hynny'n cael ei wireddu drwy gyflawni pum amcan strategol, sef:

1. Sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf posibl o gartrefi fforddiadwy, effeithlon o ran ynni, yn y canolbarth a'r gorllewin
2. Bod yn landlord dwyieithog sy'n canolbwyntio ar ei denantiaid, sy'n gweithio gyda phartneriaid i gefnogi'r economi leol a chymunedau lleol, ac sy'n mynd i'r afael â digartrefedd
3. Bod yn gyflogwr cynhwysol o'r radd flaenaf, sy'n meithrin diwylliant cadarnhaol ac sy'n ymroi i ddatblygu ei gydweithwyr
4. Bod yn sefydliad cynaliadwy, carbon isel
5. Bod yn sefydliad y mae ei lywodraethiant, ei sefyllfa ariannol a'i seilwaith digidol yn gadarn

Mae rhagor o fanylion am gymdeithas dai Barcud i'w gweld ar y wefan: barcud.cymru

# Gofal a Thrwsio ym Mhowys

Mae Gofal a Thrwsio ym Mhowys yn sefydliad dielw â dibenion elusennol, sydd wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol fel Cymdeithas Budd Cymunedol dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.

Cafodd Gofal a Thrwsio ym Mhowys ei sefydlu yn 1988, ac mae'n un o 13 o asiantaethau Gofal a Thrwsio annibynnol sy'n gweithio ar draws Cymru. Maent yn arbenigo mewn darparu ystod o gyngor ac addasiadau er mwyn galluogi pobl hŷn neu anabl i barhau i fyw'n dda yn eu cartrefi eu hunain, boed yn gartrefi y maent yn berchen arnynt yn breifat neu'n gartrefi a gaiff eu rhentu'n breifat.

Mae Gofal a Thrwsio ym Mhowys yn cynnig Gwasanaeth Cartref Iach i bobl hŷn sy'n byw ym Mhowys, er mwyn asesu diogelwch yn y cartref a darparu cyngor amdano. Mae hefyd yn hwyluso'r prosiect Mamwlad, sef gwasanaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu pobl dros 50 oed yn y gymuned amaethyddol i barhau i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol gartref ac er mwyn mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd.

Ar hyn o bryd, mae Gofal a Thrwsio ym Mhowys yn cyflogi 19 o staff sy'n gweithio o Tŷ Canol House yng nghanol y Drenewydd. Oddi yno, mae'r asiantaeth yn gweithio ar draws Powys gyfan.

## Ein Gwerthoedd:

Gwaith Gofal a Thrwsio yw cynorthwyo pobl hŷn a phobl anabl i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain, yn annibynnol ac yn ddiogel, am gymaint o amser ag y maent yn dymuno gwneud hynny.

### Urddas a Pharch

Rydym yn trin pob un o'n cwsmeriaid fel unigolion, gydag urddas a pharch, ac rydym yn grymuso pobl i barhau i fod â rheolaeth ar eu bywyd eu hunain.

### Cynhwysiant

Rydym yn cydweithio â phartneriaid allweddol a chymunedau lleol i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy ardderchog.

### Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Rydym yn gweithredu mewn modd sy'n agored, yn deg, yn hygyrch ac yn gyfiawn. Rydym yn parchu barn ein cleientiaid a'n cydweithwyr. Rydym yn rhoi pobl yn gyntaf.

### Ansawdd

Ein nod yw darparu gwasanaeth o'r safon uchaf posibl, a dangos gonestrwydd, integriti a thryloywder ym mhob peth a wnawn.

### Dyma'r blaenoriaethau sydd wedi'u cytuno gennym:-

Blaenoriaeth 1 - Cynllun o'r Ysbyty i Gartref Iach
Blaenoriaeth 2 - Ein Therapydd Galwedigaethol ein hunain
Blaenoriaeth 3 - Swyddog Ynni
Blaenoriaeth 4 - 4ydd Swyddog Mân Addasiadau
Blaenoriaeth 5 - Ymchwilio i droi'n elusen
Blaenoriaeth 6 - Ehangu Mamwlad
Blaenoriaeth 7 - Llogi Cymhorthion Symud

Mae rhagor o fanylion am Gofal a Thrwsio ym Mhowys i'w gweld ar y wefan: crpowys.co.uk

Gofal a Thrwsio ym Mhowys
Care & Repair in Powys

# Y Gymdeithas Gofal

Mae'r Gymdeithas Gofal yn elusen gofrestredig sy'n darparu gwasanaethau tai, digartrefedd a chymorth ar draws y canolbarth a'r gorllewin. Mae'r Gymdeithas Gofal yn angerddol ynghylch gwneud gwelliannau gwirioneddol ac ymarferol i fywydau pobl yn syth.

Mae'r Gymdeithas Gofal wedi bod yn gyfrifol am leihau digartrefedd yn sylweddol, drwy roi i bobl yr help y mae arnynt ei angen i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Drwy helpu ystod eang o bobl, gan gynnwys aelodau mwyaf agored i niwed ein cymdeithas, i ymgysylltu â'u cymunedau a byw bywydau mwy gweithgar sy'n rhoi mwy o foddhad iddynt, mae gwaith y Gymdeithas Gofal yn hollbwysig i leihau'r pwysau a'r galwadau sydd ar wasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau iechyd yn lleol.

Mae'r Gymdeithas Gofal yn darparu cymorth yn ymwneud â thai a thenantiaethau er mwyn galluogi pobl 16 oed a throsodd sy'n ddigartref, neu a allai fod yn ddigartref, i gael y sgiliau a'r adnoddau y mae arnynt eu hangen i gynnal tenantiaeth. Caiff y gwasanaeth ei ariannu gan Cefnogi Pobl, a'i nod yw helpu pobl i fyw'n llwyddiannus ac yn annibynnol mewn llety sefydlog yn eu cymuned.

Mae'r Gymdeithas Gofal hefyd yn cynnig Cynllun Shop Mobility yn Aberystwyth ac mae'n rheoli asiantaeth gosod cartrefi cymdeithasol.

Ar hyn o bryd, mae'r Gymdeithas Gofal yn cyflogi 40 o staff sy'n gweithio yn Aberystwyth ac yn Aberteifi yng Ngheredigion ac yn y Drenewydd ym Mhowys.

## Gweledigaeth

"Cynnig gwelliannau gwirioneddol ac ymarferol i fywydau pobl yn syth drwy ein gwasanaethau tai, digartrefedd a chymorth."

## Cenhadaeth

- Cynorthwyo pobl i wireddu eu potensial
- Creu cymunedau cryfach
- Darparu opsiynau o ran tai a llety

Mae rhagor o fanylion am y Gymdeithas Gofal i'w gweld ar y wefan: caresociety.org.uk



CYMDEITHAS GOFAL
THE CARE SOCIETY

# EOM (EOM Electrical Contractors Ltd)

Mae EOM yn gwmni dibynadwy sydd wedi hen ennill ei blwyf yn y Drenewydd, ac mae'n darparu gwasanaethau trydan, nwy a phlymio yn ogystal â gwasanaeth cynnal a chadw cyffredinol. Mae gwaith EOM ar brosiectau'n amrywio o dasgau bach ar gyfer unigolion sy'n berchen ar eu cartref eu hunain i brosiectau mawr ar gyfer cleientiaid yn y sector masnachol a'r sector cyhoeddus.

Cafodd EOM ei sefydlu yn 1995 gan grŵp o drydanwyr yn y canolbarth, ac erbyn heddiw mae'n cyflogi cyfanswm o 38 o weithwyr proffesiynol yn y tîm. Mae EOM yn darparu ystod eang o wasanaethau cynnal a chadw, o waith ymatebol a gwaith ar eiddo gwag i waith ar eiddo preswyl, a hynny drwy roi gwasanaeth i offer nwy, cynnal profion ar systemau trydanol, a gwneud gwaith sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, e.e. gwaith ar larymau tân. Caiff y gwasanaethau hyn eu darparu i ystod o gleientiaid ar hyd a lled y canolbarth, yn ychwanegol at y gwasanaethau i Barcud. Mae EOM yn cynorthwyo prentisiaid, yn hyfforddi ac yn datblygu ei weithlu, ac yn ceisio dod yn gwmni cynaliadwy o safbwynt amgylcheddol sy'n arbenigo mewn gosod a chynnal a chadw gosodiadau trydanol ac mewn cynnal a chadw amryw agweddau ar asedau.

## Prif amcanion

- Bod yn fusnes cynaliadwy, sy'n datblygu sgiliau a gwybodaeth gynaliadwy ac sy'n gallu darparu gwerth ychwanegol i'n cwsmeriaid.
- Bod yn gyflogwr sy'n cael ei barchu ac sy'n cefnogi'r economi leol a chymunedau lleol.
- Buddsoddi mewn cydweithwyr, ac anelu at lefelau effeithlonrwydd sydd gyda'r gorau yn y diwydiant.
- Tyfu'r busnes drwy waith newydd o safon sy'n waith proffidiol.
- Bod yn fusnes lleol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid ac sydd ag enw ardderchog am ddarparu gwasanaeth cynnal a chadw o'r radd flaenaf.
- Defnyddio technoleg i wella effeithlonrwydd a'r profiad i gwsmeriaid.
- Sicrhau bod pob gosodiad newydd yn waith o safon a gyflawnir yn ddiogel, a bod unrhyw waith newydd yn cael ei ennill ar sail ansawdd ac argymhelliad yn hytrach nag ar sail pris yn unig.
- Sicrhau cynnydd o 15% mewn trosiant yn ystod y tair blynedd cyntaf a chynnydd o 10% yn ystod blynyddoedd pedwar a phump.
- Bod yn gontractwr y mae pawb am ei ddewis.
- Sicrhau elw net o 10% o'r trosiant blynyddol.

Mae EOM wedi cynyddu ei drosiant yn gyson, o dros £2.5 miliwn dair blynedd yn ôl i bron £4 miliwn, a bwriedir datblygu'r busnes ymhellach.

Mae rhagor o wybodaeth am EOM i'w chael ar y wefan: eomltd.co.uk



EOM

# Aelodau Bwrdd Barcud

Mae Bwrdd Barcud yn cynnwys hyd at 12 aelod, a cheir darpariaeth ar gyfer pum aelod cyfetholedig arall. Bwrdd Barcud sy'n gyfrifol yn gyffredinol am lywodraethiant ar ran y Grŵp.

Caiff aelodau'r Bwrdd gyfle i fod yn aelodau o'r Is-bwyllgorau ac o Fyrddau'r is-gwmnïau.

**Dyma aelodau'r Bwrdd ar hyn o bryd:**



**Alison Thorne**
Cadeirydd Bwrdd Barcud



**Dafydd Lewis**



**Kaye Law-Fox**
Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol



**John Rees**



**Mererid Boswell**



**Carina Roberts**



**David Hall**



**Enid Roberts**



**Siobhan Johnson**

**Olumbunmi Ajayi-Obanewa**



**Wyn Jones**



**Richard Woolley**

Mae bywgraffiadau llawn pob un o aelodau Bwrdd Barcud i'w gweld ar y wefan: barcud.cymru/board-members

# Bwrdd Gofal a Thrwsio ym Mhowys

Mae Bwrdd Gofal a Thrwsio ym Mhowys yn cynnwys hyd at wyth aelod – hyd at bum aelod annibynnol ac o leiaf tri aelod enwebedig o Fwrdd Barcud.

**Dyma aelodau'r Bwrdd ar hyn o bryd:**

## Julie Metcalf (Cadeirydd)



(Bydd yn rhoi'r gorau i'w rôl ym mis Medi 2024)

Roedd Julie yn rheolwr gofal cymdeithasol i oedolion mewn awdurdod lleol cyn iddi ymddeol, arferai fod yn Bennaeth Anabledd ac Adsefydlu, ac roedd yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig tan fis Hydref 2014. Prif ffocws ei gyrfa oedd gwasanaethau ar gyfer anableddau corfforol a synhwyraidd, a oedd yn cynnwys gwasanaethau therapi galwedigaethol. Roedd Julie yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y sector gwirfoddol, y sector statudol a'r sector annibynnol, ac mae ganddi lawer o brofiad o fonitro cyllidebau ac o ymwneud â systemau rheolaeth a oedd yn ymdrin â hyd at £6 miliwn.

## Paul Jays (Is-gadeirydd)

Mae gyrfa Paul wedi bod ym maes gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol awdurdodau lleol, a oedd yn cynnwys cyfnod fel Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion gyda Chyngor Swydd Gaerwrangon. Yn fwyaf diweddar, bu Paul yn gweithio fel ymgynghorydd annibynnol gyda sefydliadau a oedd yn cynnwys y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol, Llywodraeth Ynysoedd Falkland, Gwasanaethau Gofal i Oedolion Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae hefyd wedi bod yn Is-gadeirydd Cymdeithas Dai Severn Vale ac yn gyfarwyddwr busnes teuluol.

## Crispin Jones



Mae gan Crispin sgiliau arwain a sgiliau busnes yn ogystal ag ymwybyddiaeth gyffredinol o faterion ariannol a phrofiad eang o ymwneud â chysylltiadau cyflogaeth, trafod telerau contractau a chyflawni rhaglenni. Mae ganddo lawer o brofiad o ymwneud â llywodraeth ganolog a llywodraethau datganoledig a bu'n gweithio am nifer o flynyddoedd fel uwch-reolwr, yn bennaf yn y sector tai domestig preifat lle'r oedd yn gyfarwydd yn benodol â'r sector ôl-osod.

## Dafydd Lewis



Bu Dafydd gynt yn Gyfarwyddwr Corfforaethol gyda Chyngor Gwynedd a chanddo gyfrifoldebau am dai, gofal cymdeithasol i oedolion, iechyd a lles a phartneriaethau diogelwch cymunedol. Mae Dafydd yn dod â'i sgiliau i'r Pwyllgor Prosiectau a Pherfformiad a Bwrdd Gofal a Thrwsio ym Mhowys. Mae Dafydd yn rhugl yn y Gymraeg.

## Mark Rees



Roedd Mark yn Swyddog Cymorth Dysgu gyda TUC Cymru cyn iddo ymddeol, ac mae ganddo 10 mlynedd o brofiad o ymwneud â rheoli tai a hybu cyfranogiad tenantiaid. Mae Mark wedi ymrwymo ar hyd ei yrfa i'r ethos o gynnwys cymunedau a hybu cyfiawnder cymdeithasol a chyfrifoldeb cymdeithasol. Mae profiad Mark fel cyn-aelod o Fwrdd Tai Canolbarth Cymru yn golygu ei fod yn gyfarwydd iawn â'r berthynas rhwng Gofal a Thrwsio ym Mhowys fel is-gwmni sy'n gweithredu mewn strwythur Grŵp.

### Carina Roberts



Mae gan Carina dros 30 mlynedd o brofiad o arwain yn y sector dai, a phrofiad o waith partneriaeth â chyrff yn y sector gyhoeddus a'r sector breifat. Mae gwybodaeth Carina o dai cymdeithasol a darpariaeth gofal ychwanegol yn ychwanegiad gwerthfawr at y Pwyllgor Prosiectau a Pherfformiad a Bwrdd Gofal a Thrwsio ym Mhowys. Mae Carina'n rhugl yn y Gymraeg.

## Bwrdd y Gymdeithas Gofal

Mae Bwrdd y Gymdeithas Gofal yn cynnwys hyd at wyth aelod - hyd at bum aelod annibynnol ac o leiaf tri aelod enwebedig o Fwrdd Barcud.

**Dyma aelodau'r Bwrdd ar hyn o bryd:**

### Anthony Hearn (Cadeirydd)



(Bydd yn rhoi'r gorau i'w rôl ym mis Hydref 2024)

Mae gan Anthony dros 30 mlynedd o brofiad o weithio a gwirfoddoli ym maes tai, tai â chymorth, a sefydliadau ieuenctid a datblygu cymunedol. Mae Anthony yn angerddol ynghylch gweithio gyda phobl a chymunedau i'w helpu i ffynnu a llwyddo; mae'n gefnogol dros ben i economïau sylfaenol a grym trawsnewidiol yr economi gymdeithasol; ac mae'n dadlau'n frwd dros gydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol.

### John Rees (Is-Gadeirydd)



Mae John yn Bennaeth Cyllid yn Plymouth Community Homes ac yn Gyfrifydd Ardystiedig Siartredig. Arweiniodd profiad John o gyllid a rheoli risgiau yn y sector tai cymdeithasol at ei benodiadau fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ac Is-Gadeirydd Bwrdd y Gymdeithas Gofal. Mae John wrthi'n dysgu'r Gymraeg ac mae ganddo gysylltiadau ag ardal Ceredigion.

### Stephen Cripps



(Bydd yn rhoi'r gorau i'w rôl ym mis Medi 2024)

Mae Stephen yn gyn-Brif Swyddog ym maes llywodraeth leol ac mae ganddo 30 mlynedd o brofiad a oedd yn cynnwys rheoli tai. Mae Stephen yn gyn-Gadeirydd cymdeithasau tai Tai Ceredigion a Barcud, ac roedd yn Aelod o Fwrdd Cartrefi Cymunedol Cymru. Mae Stephen hefyd yn gyn-Gadeirydd Pwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion.

## Margaret Gallagher



Un o Awstralia yw Margaret, ac mae'n byw yn y DU ers 26 o flynyddoedd ac wedi treulio 18 o'r blynyddoedd hynny yng Ngheredigion. Mae gan Margaret radd BSc a gradd MA mewn Seicoleg o Brifysgol Sydney, a bu'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol ac iechyd am dros 20 mlynedd. Margaret oedd Rheolwr Cefnogi Pobl gwreiddiol Cyngor Sir Ceredigion, a hi fu'n hwyluso'r gwaith o sefydlu'r fenter yn y sir. Mae Margaret yn un o ymddiriedolwyr Canolfan Plant Jig-So yn Aberteifi ac yn aelod o Grŵp Monitro Barcud.

## Annette Jones



Roedd Annette yn weithiwr cymdeithasol ac yn rheolwr tîm â 45 o flynyddoedd o brofiad cyn iddi ymddeol, ac roedd yn gweithio ym maes amddiffyn plant a gyda phlant mewn angen a oedd â phroblemau'n ymwneud â derbyn gofal. Mae Annette yn brofiadol iawn ym maes gwaith amlasiantaeth ac mae'n gwerthfawrogi'r ymyriadau a gynigir gan y Gymdeithas Gofal o safbwynt prynwr. Mae Annette yn siarad Cymraeg yn rhugl ac mae'n Gynghorydd Cymuned.

## Peter Saunders



(Bydd yn rhoi'r gorau i'w rôl ym mis Medi 2024)

Mae cefndir Peter ym maes cynllunio trefol, ymchwilio a darlithio mewn prifysgol. Mae'n gyn-Gyfarwyddwr gwasanaethau myfyrwyr ym Mhrifysgol John Moores, Lerpwl ac mae ganddo ddiddordeb brwd mewn gofal cymdeithasol a thai gofal ychwanegol. Mae Peter yn gyn-aelod o Fwrdd cymdeithas dai Tai Ceredigion. Mae Peter wrthi'n frwd yn dysgu Cymraeg.

## Victoria (Vicky) Medhurst



Mae Vicky yn Bennaeth Cyllid yn Ymddiriedolaeth Brandon ac mae wedi bod yn gweithio yn y sector elusennau a'r sector dielw yn ystod y 15 mlynedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae Vicky wedi dod ar draws ystod eang o anghenion mewn cymunedau ar draws de Cymru ac mae'n angerddol ynghylch sicrhau bod gan y bobl hynny fynediad i'r cymorth cywir. Mae profiad Vicky yn y sector gofal a chymorth tra'n gweithio i Grŵp Pobl wedi'i galluogi i feithrin dealltwriaeth o'r heriau y mae'r sector yn eu hwynebu, yn enwedig o ran cyllid a chynaliadwyedd.

## Richard Woolley



Mae Richard yn Gyfrifydd Ardystiedig Siartredig a bu gynt yn Brif Weithredwr Connexus Homes.  Mae ganddo dros 30 mlynedd o brofiad yn y sector tai cymdeithasol mewn sefydliadau sy'n cynnwys trosglwyddiadau gwirfoddol ar raddfa fawr yn ogystal â chymdeithasau tai traddodiadol mewn swyddogaethau megis Cyfarwyddwr Adnoddau a Phrif Gyfrifydd Grŵp yn ogystal â Phrif Weithredwr am bron i bum mlynedd. Â chefndir cryf mewn cyllid, llywodraethiant a strategaeth dai, mae Richard yn aelod gwerthfawr o'r Pwyllgor Prosiectau a Pherfformiad a Bwrdd y Gymdeithas Gofall ill dau, yn ogystal â'I swyddogaeth fel aelod o Fwrdd y Grŵp.

# Bwrdd EOM

Mae Bwrdd EOM yn cynnwys hyd at chwe aelod – tri aelod annibynnol a thri aelod a enwebir gan Fwrdd Barcud.

**Dyma aelodau'r Bwrdd ar hyn o bryd:**

## Richard Knight (Cadeirydd)



Richard yw Uwch-reolwr Datblygu Busnes Plentific sy'n darparu gwasanaethau i landlordiaid a gwasanaethau cynnal a chadw eiddo, ac mae'n gyn-Gyfarwyddwr Cleientiaid Rhanbarthol GasTag. Mae gan Richard dros 30 mlynedd o brofiad o weithio yn y diwydiant TGCh yn cynorthwyo cwsmeriaid i osod a chynnal a chadw meddalwedd, a thros 20 mlynedd o brofiad o ddarparu cymorth busnes i gymdeithasau tai.

## Mererid Boswell



Mererid yw Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Llyfrgell Genedlaethol Cymru. A hithau'n gyfrifydd siartredig â phrofiad o gyllid yn y sectorau elusennol a chyhoeddus, gwneir defnydd da o sgiliau ariannol Mererid fel aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg a Bwrdd EOM. Mae Mererid yn rhugl yn y Gymraeg.

## David Hall



David yw Pennaeth Eiddo'r Grŵp i Wrekin Housing Group. Â bron i 30 o brofiad mewn tai cymdeithasol mewn cyflawni rheolaeth asedau, iechyd a diogelwch eiddo, ôl-osod i eiddo, caffael, a datblygu tai, ac yn eistedd ar Grŵp Rheolaeth Asedau CIH a Grŵp Diogelwch Adeiladau NHF ill dau.  Mae sgiliau David yn ychwanegiad gwerthfawr at y Pwyllgor Archwilio a Risg a Bwrdd EOM.

## Wyn Jones



Mae Wyn yn Gymrawd o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, yn Aelod o Sefydliad Siartredig y Cymrodeddwyr ac yn Aelod o Sefydliad y Tystion Arbenigol. Y mae hefyd yn ddatblygwr profiadol ac yn Dyst Arbenigol cofrestredig gyda RICS, yn Brisiwr Achrededig, yn Gymrodeddwr, ac yn Arbenigwr Annibynnol. Mae Wyn hefyd yn dal swydd fel Cadeirydd Siambr Eiddo'r Tribiwnlys Haen Gyntaf, Cadeirydd wedi'i benodi gan y Llywodraeth ar Dribiwnlys Prisio Cymru ac aelod wedi'i benodi gan yr Arglwydd Ganghellor o Dribiwnlysoedd Tir Amaethyddol Lloegr a Chymru ill dwy. Mae sgiliau Wyn yn gweddu'n dda i'w swyddogaethau ar y Pwyllgor Prosiectau a Pherfformiad a Bwrdd EOM.

## Antony Lowry



Mae Anthony yn berchennog busnes, sydd â thros 25 mlynedd o brofiad o weithio yn y sector tai cymdeithasol. Treuliodd 15 o'r blynyddoedd hynny'n gweithio fel swyddog gweithredol mewn ystod o drosglwyddiadau gwirfoddol ar raddfa fawr, mewn ardaloedd gwledig ac yng nghanol dinasoedd.

## Fleur Whittingham



Mae Fleur wedi bod yn gweithio ym maes tai cymdeithasol ers dros 20 mlynedd ar ôl ennill gradd MSc mewn dulliau ymchwil ac ystadegau. Mae Fleur yn hyddysg iawn ym maes rhoi gwasanaeth i offer nwy, cynnal a chadw eiddo, buddsoddi a chaffael, ac mae ganddi ddiddordeb arbennig mewn iechyd a diogelwch ac mewn sicrhau bod eiddo'n cydymffurfio â gofynion.

# Sut I Ymgeisio

I ymgeisio am y rolau hyn, dylech gyflwyno'r dogfennau canlynol:

- CV manwl â dim mwy na dwy dudalen (2,000 o eiriau) sy'n cynnwys manylion am y swyddi yr ydych wedi'u dal (a'r dyddiadau). Dylech gynnwys cyflawniadau allweddol sy'n berthnasol i swydd anweithredol.
- Datganiad ategol â dim mwy na dwy dudalen (2,000 o eiriau) sy'n esbonio eich rhesymau dros ymgeisio am y swydd ac sy'n nodi sut y byddech yn ychwanegu gwerth fel aelod o'r Bwrdd (yr ydych yn bodloni'r adran Sgiliau a Gallu a rhinweddau Personol yn y Fanyleb Person berthnasol). **Dylech nodi pa rôl yr ydych yn ymgeisio amdani, ac os ydych yn ymgeisio am fwy nag un rôl dylech nodi pa un yr ydych yn ei ffafrio.**
- Ffurflen monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth, sydd wedi'i llenwi. Cyn ein bod yn llunio rhestr fer, bydd eich manylion personol a'r ffurflen monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu gwahanu oddi wrth eich ffurflen gais. Y rheswm am hynny yw ein bod am sicrhau bod yr ymgeiswyr yn cyrraedd y rhestr fer ar sail eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad yn unig.
- Manylion cyswllt (enw, teitl swydd, sefydliad, rhif ffôn a chyfeiriad ebost) dau ganolwr (un canolwr personol ac un canolwr yn ymwneud â chyflogaeth; gorau oll os ydynt yn cynnwys eich cyflogwr presennol, os yn berthnasol). Dylech nodi na fyddwn yn cysylltu â'r canolwyr heb gael eich caniatâd yn gyntaf.

Os hoffech gael trafodaeth anffurfiol a chyfrinachol er mwyn deall mwy am Barcud a'i is-gwmnïau neu unrhyw un o'r rolau, mae croeso i chi gysylltu ag Elspeth Edwards, Uwch Swyddog Llywodraethiant, drwy ebost: boardrecruitment@barcud.cymru neu drwy ffonio'r rhif uniongyrchol hwn: 01570 424362 pwy fydd yn rhoi mewnweledGiad a/ neu drefnu galwad gyda Chadeirydd Barcud.

# Amserlen Recriwtio

| Cam Recriwtio | Dyddiad |
|---|---:|
| **Dyddiad Cau** | **Dydd Llun 14 Hydref** |
| **Penderfyniad Rhester Fer** | **Dydd Gwener 18 Hydref** |
| **Cyfweliadau (Tŷ Canol, Y Drenewydd)** | **Dydd Llun 28 Hydref** |

Os yw'n debygol na fyddwch ar gael yn ystod unrhyw un o'r cyfnodau cyfweld uchod, dylech gysylltu ag boardrecruitment@barcud.cymru cyn gynted ag sy'n bosibl.

barcud